Annwyl randdeiliad

Yn 2021-2022, cynhaliodd yr awdurdod lleol broses ymgynghori statudol mewn perthynas â chynnig i wneud newid rheoleiddiedig i Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig trwy ehangu'r ysgol i ddau ddosbarth mynediad o fis Medi 2025.

Ym mis Chwefror 2022, penderfynodd y Cabinet weithredu'r cynnig fel y'i cyhoeddwyd.

Byddai'r newid yn arwain at gynyddu capasiti'r ysgol i 420 o leoedd i blant 4-11 oed, ynghyd â darpariaeth feithrin gyfwerth, lawn-amser ar gyfer 75 o blant. Dan y cynnig hwn, byddai'r trefniant 'safle hollt' presennol yn dod i ben, a byddai'r adran fabanod yn symud i ysgol gynradd a fyddai'n cael ei hadeiladu o'r newydd ar gyfer yr adran fabanod a'r adran plant iau ar safle presennol yr adran plant iau, Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, Stryd Pwllygath, Mynydd Cynffig. Ar ôl rhoi'r cynnig ar waith, byddai Nifer Derbyn Cyhoeddedig Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig yn 60.

Gan y bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle presennol yr adran plant iau (ynghyd â safleoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a ddefnyddid o'r blaen gan Gymdeithas Rhandiroedd Pwllygath a'r Corfflu Hyfforddiant Awyr), bydd y gwaith adeiladu'n cael ei wneud mewn cyfres o gamau er mwyn i'r adran plant iau allu parhau i weithredu yn ystod y gwaith. Mae angen cynnal gwaith lliniaru ecoleg tymhorol a bydd y gwaith hwnnw'n cael ei wneud fel rhan o'r cynllun. Bydd rhandiroedd eraill yn cael eu darparu fel rhan o'r datblygiad.

Tasg anodd a dyrys fu datblygu'r cynllun ac mae hyn wedi cael effaith negyddol ar y rhaglen a gyflwynwyd yn ystod y cam ymgynghori ac a oedd yn sail i benderfyniad y Cabinet. Mae rhaglen ddiwygiedig wedi'i llunio ar gyfer darparu'r ysgol newydd. Ond ni fu modd cadw at y dyddiad gweithredu arfaethedig a gymeradwywyd gan y Cabinet.

Ar 13 Mai 2025, ar ôl ymgynghori â Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, penderfynodd y Cabinet y dylid addasu'r dyddiad gweithredu'n ffurfiol, gan ei newid i fis Medi 2027.

Mae'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 13 Mai 2025 yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau 'galw i mewn' a nodir yn Rhan 4 Rheolau Trefniadaeth Cyfansoddiad y Cyngor, sy'n nodi y gellir adolygu penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet ond nas rhoddwyd ar waith eto. Os derbynnir hysbysiad 'galw i mewn' dilys gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu, bydd yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu.

Yn gywir



**Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
**Corporate Director – Education, Early Years and Young People**
Bridgend County Borough Council